PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD IAU, 12 IONAWR 2017

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Cynghorydd Nigel Howells (Caedeirydd) |
| | Cynghorwyr Dilwar Ali, Howells, Hyde, Keith Jones, Simmons a/ac Stubbs |

36 : AELODAETH

Cynghorwyd y Pwyllgor y dylid enwebu Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd, Rod McKerlich.

Enwebodd y Cynghorydd Keith Hyde y Cynghorydd Nigel Howells.
Cefnogodd y Cynghorydd Elaine Simmons yr enwebiad.

Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Cynghorydd Nigel Howells gadeirio'r cyfarfod hwn.

37 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEBAU

Y Cynghorydd Rod McKerlich

38 : DATGAN BUDDIANNAU

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod ganddynt gyfrifoldeb dan Erthygl 16 Cod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ac i gwblhau ffurflenni Buddiant Personol.

| CYNGHORYDD | EITEM | RHESWM |
|---|---|---|
| Howells | Eitem 5 | Aelod Lleol dros Adamsdown |

39 : COFNODION

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai cadarnhau cofnodion mis Rhagfyr 2016 yn symud i'r cyfarfod ym mis Chwefror 2017.

40 : PERFFORMIAD BLYNYDDOL DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED

Croesawyd y canlynol i'r Pwyllgor:

- Y Cynghorydd Daniel De'Ath, Aelod Cabinet:
  Sgiliau, Diogelwch, Ymrwymiad a Democratiaeth
- Isabelle Bignall, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chymunedau
- John Agnew – Rheolwr Gwasanaethau Cwsmer Corfforaethol

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd De'Ath wneud datganiad.

Croesawodd y Cynghorydd De'Ath y canlyniadau rhagorol a'r gyfradd basio o 94%. Roedd hyn yn llwyddiant anhygoel, yn cefnogi pobl trwy'r ddinas.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn nodi'r prif bwyntiau canlynol:

- Mae Dysgu Oedolion Yn Y Gymuned yn parhau i wneud gwahaniaeth gadarnhaol i fywydau pobl yng Nghymru
- Dysgu i Weithio – 907 cwrs a 4687 yn cofrestru
- Cyfradd Llwyddo - 2015/16 94%
- Pobl yn cofrestru o Ardaloedd Cymunedau Yn Gyntaf - 2015/16 76% (mwy na'r targed o 65%)
- Cymharu['r Rhai sy'n Cofrestru o fewn Partneriaethau
- DICE (Cynnwys Anabledd mewn Addysg Gymunedol)
- Dysgu gydol Oes

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am y wybodaeth gan wahodd cwestiynau gan y Pwyllgor.

Gwnaeth y cyflwyniad argraff dda ar y Pwyllgor a sylwont ar y sefydliadau sy'n rhan o'r gwaith partneriaeth.

Roedd rhai Aelodau'n awyddus i glywed am y mathau o gyrsiau a gynhelir a'r lleoliadau a ddefnyddir i gefnogi'r gwasanaeth. Croesewir mapio cyrsiau Dysgu Gydol Oes, yn cynnwys nodi mannau yn y ddinas lle cymerodd y nifer mwyaf ran yn ogystal â dangos manylion proffil oedran.

Rhoddodd swyddogion y camau nesaf i'r Pwyllgor. Ceid newyddion ar sefyllfa'r grant yn dilyn rhaglen werthuso. Roedd angen rhagor o waith er mwyn symud y rhaglen Dysgu Gydol Oes yn ei blaen.

Roedd yn hanfodol hyrwyddo'r hanes llwyddiannus hwn ac roedd Tîm Cyfathrebu'r Cyngor o blaid cyhoeddi'r gwasanaeth ar Facebook.

PENDERFYNWYD: CYTUNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet a'r swyddogion perthnasol ar ran y Pwyllgor yn diolch iddynt am fynychu'r cyfarfod ar 12 Ionawr 2017 ac i gyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

41 : DARPARU GWASANAETH LLYFRGELL YN YSBYTY BRENHINOL CAERDYDD

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Peter Bradbury, Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cymunedol, Cwmnïau Cydweithredol A Mentrau Cymdeithasol
- Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid
- Nick Blake, Rheolwr Cefnogi Busnes

Gwrandawodd y Pwyllgor gyflwyniad gan y Cynghorydd Peter Bradbury.

Eglurodd y Cynghorydd Bradbury bod y cyfleuster blaenorol yn Llyfrgell y Rhath ar hyn o bryd yn wag. Gweithredwyd proses CAT gyda chynnig i'r Cyngor i ymchwilio ateb posibl mewn lleoliad yn Adamsdown. Nodwyd y byddai rhan o Ysbyty Brenhinol Caerdydd yn llety addas ar gyfer gwasanaeth llyfrgell yn cefnogi cyfleusterau tebyg

megis Llyfrgell y Rhath. Roedd yr un nifer o gyfrifiaduron ar gael, yn cynnwys lle silffoedd llyfrau. Roedd hwn yn gyfleuster aml-bwrpas i wella'r budd cymunedol. Byddai'r Cyngor hefyd yn parhau i ystyried gweithredwyr cymunedol posibl mewn perthynas â Llyfrgell y Rhath.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y cyfleuster yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd yn ateb hirdymor ar gyfer cynnig gwasanaethau llyfrgell yn ardal hon y ddinas a chydnabuwyd bod buddsoddiad sylweddol y Bwrdd Iechyd Prifysgol yn dangos ymroddiad i greu Canolfan Iechyd a Lles yn y lleoliad hwn.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor am longyfarch yr Aelod Cabinet am ddod o hyd i ateb ar gyfer gosod gwasanaethau llyfrgell tebyg i'r rhai a oedd ar gael yn adeilad Llyfrgell y Rhath.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at yr Hyb yn yr ardal ac ymchwilio i weld a fyddai Ysbyty Frenhinol Caerdydd yn opsiwn posibl ar gyfer gwasanaethau ychwanegol.

Sylwodd y Pwyllgor mai'r bwriad oedd i'r cyfleuster hwn fod yn ateb hirdymor ar gyfer cynnig gwasanaethau llyfrgell yn yr ardal hon yn y ddinas, a thrafododd y potensial am wasanaethau ychwanegol.

Dangoswyd mapiau llawr o'r cyfleuster i'r Pwyllgor. Fodd bynnag, roedd aelodau o'r farn nad oedd modd iddynt weld yn iawn faint o le a oedd ar gael ar gyfer y gwasanaethau llyfrgell a chaffi.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y stoc yn cael ei adnewyddu yn gynt a chyda dewis ac amrywiaeth ehangach er bod y lefelau stoc wedi eu gostwng.

Trafododd y Pwyllgor ddeinameg y llyfrgell. Cydnabuwyd na fyddai modd symud rhai o'r nodweddion, megis y pileri. Roedd cyfanswm ardal yr Ysbyty Frenhinol rywfaint yn llai na Llyfrgell y Rhath; fodd bynnag, defnyddiwyd y lle mor effeithiol â phosibl ar gyfer yr ymwelwyr.

Sylwodd Aelodau mai dyma oedd Cam 1 y datblygiad ac y byddai cyfleusterau ychwanegol yn dilyn.

CYTUNWYD – y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet a'r swyddogion perthnasol ar ran y Pwyllgor yn diolch iddynt am fynychu'r cyfarfod ar 12 Ionawr 2017 ac i gyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

42 : BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD (I DDILYN)

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Bale, Arweinydd y Cyngor
- Paul Orders, y Prif Weithredwr
- Neil Hanratty, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd
- Jonathan Day, Rheolwr Polisi Economaidd
- Hrjinder Singh, Cyfrifydd Prif Brojectau
- Davina Fiore, Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn rhoi newyddion i'r Aelodau ar sefyllfa bresennol Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Eglurodd yr Arweinydd wrth y Pwyllgor fod y naw awdurdod lleol wedi arwyddo Penawdau'r Telerau ac y byddai'r Cyngor yn eu derbyn er mwyn cytuno arnynt. Roedd hwn yn gytundeb 20 mlynedd rhwng y pleidiau a byddai'n cefnogi prif brojectau sy'n cael eu datblygu yn y ddinas.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn nodi'r prif bwyntiau canlynol.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor i symud i sesiwn gaëedig er mwyn cyfeirio at wybodaeth

43 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

14 Chwefror 2017

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified